CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2004 Rhif 71 (Cy.7)

YR IAITH GYMRAEG

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2004

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

O dan Ran II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("y Ddeddf") gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg roi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw gorff cyhoeddus lunio Cynllun Iaith Gymraeg. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn rhestru amryw o gyrff cyhoeddus at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf ac yn darparu bod yr Ysgrifennydd Gwladol (y Cynulliad Cenedlaethol bellach) yn cael pennu cyrff cyhoeddus pellach at y dibenion hynny.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu cyrff cyhoeddus pellach at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf sef cyrff sy'n ymgymerwyr dŵr neu ymgymerwyr carthffosiaeth, neu'r ddau, ac sy'n gweithredu yng Nghymru.

Mae pedwar Gorchymyn blaenorol wedi'u gwneud o dan adran 6 o'r Ddeddf:

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996 (O.S. 1996/1898);

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1999 (O.S. 1999/1100);

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001 (O.S. 2001/2550 (Cy.215)); a

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002 (O.S. 2002/1441 (Cy.145)).

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 No. 71 (W.7)

WELSH LANGUAGE

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2004

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

Under Part II of the Welsh Language Act 1993 ("the Act") the Welsh Language Board may give notice in writing to any public body to produce a Welsh Language Scheme. Section 6 of the Act lists various public bodies for the purposes of Part II of the Act and provides that the Secretary of State (now the National Assembly) may specify further public bodies for those purposes.

This Order specifies further public bodies for the purposes of Part II of the Act namely bodies which are water undertakers or sewerage undertakers, or both, and which operate in Wales.

Four previous Orders have been made under section 6 of the Act:

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 1996 (S.I. 1996/1898);

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 1999 (S.I. 1999/1100);

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2001 (S.I. 2001/2550 (W.215)); and

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2002 (S.I. 2002/1441 (W.145)).

OFFERYNNAU STATUDOL

2004 Rhif 71 (Cy.7)

YR IAITH GYMRAEG

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2004

Wedi'i wneud 14 Ionawr 2004

Yn dod i rym 1 Chwefror 2004

Gan ei bod yn ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fod y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn bersonau sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur;

A chan ei bod yn ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fod y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn bersonau y mae eu holl weithgareddau neu'n sylweddol eu holl weithgareddau yn cael eu gwneud o dan gytundeb neu yn unol â threfniadau a wnaed gyda pherson sy'n gweithredu fel gwas neu asiant i'r Goron;

Yn awr felly, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 6(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**a**), ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(**b**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2004 a daw i rym ar 1 Chwefror 2004.

Pennu Cyrff Cyhoeddus

2. Pennir y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn at ddibenion Rhan II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

(a) 1993 p.38.

(b) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 No. 71 (W.7)

WELSH LANGUAGE

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2004

Made 14th January 2004

Coming into force 1st February 2004

Whereas it appears to the National Assembly for Wales that the persons referred to in the Schedule to this Order are persons exercising functions of a public nature;

And whereas it appears to the National Assembly for Wales that the persons referred to in the Schedule to this Order are persons all or substantially all of whose activities are conducted under an agreement, or in accordance with arrangements made with a person acting as servant or agent of the Crown;

Now therefore, the National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by section 6(1) of the Welsh Language Act 1993(**a**), and now vested in the National Assembly(**b**), and of all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Order:

Title and commencement

1. This Order is called the Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2004 and comes into force on 1st February 2004.

Specification of Public Bodies

2. The persons referred to in the Schedule to this Order are specified for the purposes of Part II of the Welsh Language Act 1993.

(a) 1993 c.38.

(b) The National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

14 Ionawr 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

14th January 2004

D. Elis-Thomas

The Presiding Officer of the National Assembly

YR ATODLEN

Erthygl 2

Cwmni sydd yn ymgymerwr dŵr neu'n ymgymerwr carthffosiaeth neu'r ddau ar gyfer Cymru gyfan neu unrhyw ran o Gymru, yn rhinwedd penodiad o dan adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(**b**) neu yn rhinwedd amrywio'r fath benodiad o dan adran 7 o'r Ddeddf honno.

THE SCHEDULE

Article 2

A company which, by virtue of an appointment under section 6 of the Water Industry Act 1991(**b**) or by virtue of a variation of such an appointment under section 7 of that Act, is the water undertaker or the sewerage undertaker, or both, for the whole or any part of Wales.

(a) 1998 p.38.

(b) 1991 p.56.

(a) 1998 c.38.

(b) 1991 c.56.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 Rhif 71 (Cy.7)

YR IAITH GYMRAEG

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2004

2004 No. 71 (W.7)

WELSH LANGUAGE

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2004

©℗ Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090853-8

9 780110 908533

£1.75

W209/01/04 ON